# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun Chwefror 8fed 2021

Presennol: Henry Hughes, Siân Parri, Gareth Jones, Alan Hughes, John Davies, Chris Brady.

Ymddiheuriadau: Humphrey Williams

1. Cadeiriwyd gan Siân Parri ac estynnodd groeso i bawb, yn arbennig i'r Cynghorydd newydd Chris Brady. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.
2. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Cyfethol Cynghorydd** – Yn anffodus bu i Gwenan Griffith wrthod y gwahoddiad i fod yn Gynghorydd. Penderfynwyd gofyn i Alun Williams, bydd y Clerc yn cysylltu ag o.
   b. Elusen John Edwards – doedd dim i'w ychwanegu.

3. Gohebiaeth:
   a/ **Y Farchnad Dai Gwyliau** – Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Tref Nefyn yn gofyn am gefnogaeth i'w ymgyrch i reoli'r farchnad tai gwyliau, drwy anfon llythyr parod I Lywodraeth Cymru. Penderfynwyd cefnogi, bydd y Clerc yn anfon y llythyr ar ran Cyngor Cymuned Tudweiliog.
   b/ **Cais trwydded Post Tudweiliog** – Penderfynwyd cefnogi. (Bu i Chris Brady ddatgan diddordeb yn y cais)
   c/ **Cais cynllunio C21/0062/46/**CR Cefn Amwlch Tudweiliog – Penderfnywyd anfon ymateb fel a ganlyn i'r adran Gynllunio:

Gallaf gadarnhau fod y Cynghorwyr yn cefnogi'r cais, ac yn falch fod y gwaith i'r Plas yn digwydd, a hefyd fod y teulu ar fwriad dod 'nôl i'r ardal i fyw. Dymuna'r Cynghorwyr yn dda iddynt yn eu menter newydd (gan fawr hyderu y bydd yr elfen Gymreig yn chwarae rhan amlwg yn y gweithgareddau fydd yn cymeryd lle yno).

Mae'r Cynghorwyr yn ymwybodol fod canran niferoedd unedau gwyliau o fewn yr ardal wedi ei basio, hyderwn felly y bydd y Swyddogion yn ystyried hyn wrth drin y cais.

4. Unrhyw fater arall: Doedd dim mater arall.

Cynhelir y cyfarfod nesar ar Zoom Nos Lun 8ed Mawrth 2021
am 7.30yh